

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



8. Rheoli arian

8.9 Cronfeydd wrth gefn

Dylid darllen y daflen wybodaeth hon ar y cyd â'r daflen wybodaeth o'r enw "Sicrhau bod gennych bolisi cronfeydd wrth gefn da"

1. Cyflwyniad – diffiniad o gronfeydd wrth gefn

Yn gyntaf, beth yw cronfeydd wrth gefn? Cronfeydd wrth gefn yw'r rhan honno o arian digyfngiad elusen sydd ar gael i'w gwario ar unrhyw rai o ddibenion yr elusen.

Felly, i gyfrifo'r cronfeydd wrth gefn sydd gennych ar gael, mae angen i chi eithrio cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd â gwaddol, yn ogystal ag asedau diriaethol sefydlog a ddelir er dibenion gweithredol ac unrhyw swm a ystyrir sydd wedi'u neilltuo gan yr ymddiriedolwyr.

Unwaith rydych wedi ystyried yr holl ffactorau hyn, byddwch yn dod at ffigwr y cronfeydd digyfngiad wrth gefn. Mae'r ffordd rydych yn penderfynu ai dyma'r swm y mae arnoch ei angen, fodd bynnag, yn fater mwy cymhleth.

2. Pam mae arnoch angen cronfeydd wrth gefn?

2.1 A allwch ddal cronfeydd wrth gefn yn gyfreithlon?

Mae gan elusennau ddyletswydd gyfreithiol i wario incwm o fewn cyfnod rhesymol ar ôl ei dderbyn. Ar y llaw arall, mae angen i ymddiriedolwyr ddal incwm mewn cronfeydd wrth gefn.

Weithiau bydd dogfen lywodraethu elusen yn benodol yn caniatáu ymddiriedolwyr i ddal incwm mewn cronfeydd wrth gefn, ond yn amlach bydd yr ymddiriedolwyr yn dibynnu ar bŵer ymhlyg i ddal cronfeydd wrth gefn. Ni fydd y pŵer hwn i'w ganfod yn y ddogfen lywodraethu ond bydd yn ddealedig ei fod yn rhan o'u rôl fel ymddiriedolwyr, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau a chymryd camau sy'n sicrhau bod yr elusen yn gweithredu'n briodol ar sail ariannol gadarn.

Golyga hyn fod rhaid i ymddiriedolwyr asesu a phenderfynu a oes ar yr elusen angen cronfeydd wrth gefn mewn gwirionedd ac a yw dal cronfeydd o'r fath er lles yr elusen ai peidio.

2.2 Pam y byddech chi'n dal cronfeydd wrth gefn?

Mae sawl rheswm pam y gallai fod angen i elusen ddal cronfeydd wrth gefn:

- Gallai gwariant annisgwyl ddigwydd sydd heb ei gyllidebu, gan greu angen am arian nad oedd wedi'i ragweld.
- Gall treuliau amrywio am resymau y tu hwnt i reolaeth yr elusen, megis cyflenwi absenoldeb salwch hirdymor, newidiadau deddfwriaethol mewn pensiynau.
- Gall ffrydiau incwm amrywio neu gellir ymestyn graddfeydd amser, megis lleihau grantiau neu faterion gwaddol.
- Efallai bydd angen i'r elusen fuddsoddi mewn asedau megis gweinyddion TG, gan beidio ag adfer cost tan flynyddoedd yn ddiweddaraf.
- Efallai bydd angen darparu cyllid cyfatebol o gronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau newydd.
- Efallai y bydd cyllid yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau ac felly bydd ar yr elusen angen cronfeydd wrth gefn i ariannu llif arian parod.

Mae angen i ymddiriedolwyr ystyried y rhesymau pam y gallai pethau o'r fath ddigwydd a rhesymoli'r angen o fewn y mudiad am gronfeydd rhydd wrth gefn.

3. Ym mha ffordd y dylai ymddiriedolwyr gyfrifo'r cronfeydd wrth gefn angenrheidiol?

Nid oes un dull penodol i gyfrifo cronfeydd wrth gefn, ac nid oes ychwaith ateb cywir nac anghywir i lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yr hyn y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ei wneud yw mynd ati i gyfrifo mewn ffordd synhwyrol, gan ddangos bod proses gadarn a thrylwyr wedi'i dilyn.

3.1 Ffactorau i'w hystyried wrth gyfrifo'ch cronfeydd wrth gefn angenrheidiol

Mae sawl peth y dylai ymddiriedolwyr eu hystyried yn gyntaf

- Mae'n bwysig dadansoddi a deall y ffrydiau incwm y mae'r elusen yn eu derbyn. A ydynt yn arian cyfyngedig neu ddigyfyngiad? A yw'n eu cael ymlaen llaw neu mewn ôl-daliadau? Pa ffactorau fydd yn eu hachosi i amrywio? – rhaid i chi ystyried materion mewnol ac allanol.
- Pa risgiau neu ansicrwydd mae'r elusen yn eu hwynebu yn y dyfodol? Dylai'r risgiau hyn fod yng nghofrestr risgiau'r elusen a dylent fod yn gysylltiedig â gofynion adrodd y SORP (*Statement of Recommended Practice*) y mae'n rhaid i bob elusen gydymffurfio â nhw. Mae'r risgiau a'r ansicrwydd hyn yn galluogi ymddiriedolwyr i ystyried yr angen tebygol am gronfeydd.
- Pa gynlluniau strategol sydd gan yr elusen ar waith? A fydd y cynlluniau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wario swm o arian i ddarparu llif arian parod ar gyfer menter?
- Pa gostau sydd gan yr elusen sydd wedi'u rhwymo ac am ba hyd?
- Pa gostau dileu swyddi sy'n gynhenid o fewn y tîm ac ym mha ffordd y byddai'r rhain yn cael eu cyllido?

Bydd y ffactorau uchod i gyd yn galluogi ymddiriedolwyr i bennu'r angen tebygol am gronfeydd wrth gefn a faint y dylid ei ddal.

3.2 Pa mor aml y dylid adolygu'r polisi cronfeydd wrth gefn?

Dylai ymddiriedolwyr gadw eu polisi a hefyd lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir dan arolwg. Ni ddylai'r broses fonitro fod yn weithdrefn diwedd blwyddyn yn unig, ond yn rhywbeth sy'n cael ei fonitro yn rhan o'r gwaith monitro ariannol arferol.

Dylid trafod amrywiadau cronfeydd wrth gefn er mwyn asesu a yw'n fater tymor byr neu fwy hirdymor.

Dylid hefyd monitro newidiadau mewn ffrydiau incwm a risgiau, gydag ymddiriedolwyr yn ystyried y newidiadau y mae'r effeithiau hyn yn eu hachosi yn y cronfeydd.

4. A oes y fath beth â gormod?

A all eich mudiad fyth gael gormod wrth gefn? Gall, os ydych wedi cyfrifo faint sydd ei angen ac mae gennych arian dros ben yna dylai'r arian hwnnw ffurfio rhan o wariant neu fuddsoddiad strategol arfaethedig at y dyfodol.

5. Ac os nad oes gennych ddigon?

Os yw ymddiriedolwyr yn hyderus fod y polisi cronfeydd wrth gefn yn gadarn ac yn realistig ond mae yna ddiffyg mewn gwirionedd, beth ddylent ei wneud? Dylai ymddiriedolwyr ddal adrodd ar eu polisi cronfeydd wrth gefn a'r lefel yr hoffent ei chael yn ddelfrydol, ond gan ystyried wedyn y cynllun i gyrraedd y lefel hon, a manylu ar y gweithgareddau a fydd yn eu galluogi i'w chyrraedd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Adnoddau pellach

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Ffôn: 0845 3000 218

[Elusennau a chronfeydd wrth gefn CC19](#)

SORP Elusennau

<http://charitycorp.org/>

Cynhyrchwyd y daflen wybodaeth hon yn garedig gan Broomfield and Alexander Limited: www.broomfield.co.uk, ffôn 01633 265828, ebost Charities@broomfield.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig: 1068623

Ffôn: 029 2048 5722

enquiries@c3sc.org.uk

Ffacs: 029 2046 4196

www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 16/03/2015



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk